




La Salamandra

Miriam Elin Sautin

'NOFEL SY'N GROEN GŴYDD DROSTI'
SIONED ERIN HUGHES

el sol

yr haul

Roedd gen i ddiawl o gur pen. Y math oedd yn curo'n ddi-baid, gwasgu a churo a gwasgu.

Ba-dwm-ba-dwm-ba-dwm.

Symudais fy mhwysau o un goes i'r llall a glynu'n agosach byth at y safle bws simsan er mwyn aros o fewn y cysgod prin yr oedd yn ei gynnig. Roedd yr haul llethol yn pwysu arna i, a'r chwys yn diferu i lawr fy asgwrn cefn nes bod fy nghrys yn gen llaith ar fy nghroen. Ro'n i wedi cychwyn gweld pethau. Ffwl-on ffwndro a gweld pethau oedd bendant ddim yno. Symudiad pobl a siapiau creaduriaid yn ffurfio a thoddi i mewn i'w gilydd yng nghryndod y gwres ym mhen arall y maes parcio.

Mai-god, ro'n i angen dŵr.

Doedd 'na 'run creadur go iawn wedi ymddangos ers i mi faglu allan o'r bws o dan fynydd trwsogl fy mag cefn a mwmian 'gracias' wrth y gyrrwr dros ddwyawr yn ôl. Nodiodd yntau'n gwrtais tu ôl i'w sbectol haul cyn rhuthro i ffwrdd gyda churiad cyson y reggaeton o'r radio'n diflannu efo fo. Ers hynny, roedd y lle wedi aros yn dawel oni bai am ganu'r criciaid. Ro'n i wedi aros yn y fan a'r lle. Yn drwm gyda'r gwres, yn araf gydag ansicrwydd.

Ro'n i'n eithaf siŵr fy mod i wedi glanio'n y lle anghywir.

Blinciais sawl gwaith a diflannodd y ffurfiau'n y pellter wrth i fy llygaid arfer gyda'r golau. Trippy uffernol, yr holl beth.

Mi faset ti wedi dringo i ben yr allt yn barod erbyn hyn i gael gweld beth oedd o gwmpas, llamu i fyny'r llwybr gyda dy lygaid yn disgleirio. Mi faset ti wedi bod yn falch o symudiad a chynhesrwydd dy gyhyrau, yn falch o bob diferyn o chwys. Mi faset ti wedi symud i beidio gorfod aros yn llonydd.

Edrychais ar fy ffôn am y canfed tro. Roedd roaming yn gwrthod gweithio. Daliais ati i ffidlan efo'r settings, gan bwyso'r un botymau drosodd a throsodd nes i'r sgrin gyda'i chraciau gwe pry cop grynu a diffodd yn gyfan gwbl. Coc-y-gath. Wedi gorboethi, ma' raid.

You and me both, amigo.

Roedd fy nghur pen yn dwysáu a marciau piws-felyn wedi dechrau cleisio fy ngolwg wrth i mi syllu i'r pellter. Dechreuais dyrchu eto am fy sbecs haul o fy mag cefn oedd yn bolio gyda'r sanau, y nics a'r bŵts cerdded ro'n i wedi'u stwffio i mewn ar frys cyn gadael y tŷ gyda blas cwrw'r noson cynt yn dal yn chwerw ar fy nhafod. Roedd y sblash o ddŵr oer ar fy wyneb a fy ngheseiliau yn nhoiledau gorsaf bws Madrid yn oriau mân y bore'n teimlo'n bell i ffwrdd yn barod, heb sôn am orsaf niwlog Caerdydd ddeuddydd yn ôl. Roedd y ddwyawr olaf o Seville wedi bod yn hurt o boeth, gyda'r air-con yn penderfynu rhoi'r gorau iddi ar ôl dim ond hanner awr o'r daith. Ac rŵan ro'n i'n y maes parcio gwag'ma, ddim yn hollol saff ai fama ro'n i fod.

Wrth chwilota yng nghrombil y bag, gwasgais lyfnder metalig yn fy llaw. B-i-n-g-o! Gyda'r rhyddhad mwyaf gafaelais yn y can o ddiod egni ro'n i wedi ei brynu yng ngorsaf Caerdydd y diwrnod cynt. Heb oedi, cliciais y

can ar agor a sugnais yr hylif cynnes yn desbret. Afiach o ddesbret. Llosgodd y melyster gefn fy ngwddf a llifodd y diferion i lawr fy ngên. Ciliodd y cur pen fymryn wedi i mi ei orffen. Ochneidiais yn drwm a gadael i fi fy hun lithro i'r llawr a tharo fy mhen-ôl yn ddiseremoni ar y pafin gan jest abowt osgoi'r fflachiadau o deilchion potel Cruzcampo. Cydiais yn y camera oedd yn hongian o gwmpas fy ngwddf.

Clic-clic-clic.

Clic.

Roedd cysgod y gwres oedd yn troelli am i fyny dros y concrit yn ffurfio patrymau oedd yn mynd ac yn dod bob yn ail. Sganiais drwy'r lluniau.

Are you sure you want to delete?

Yes.

Edrychais am i fyny ac i mewn i'r pellter. Roedd siapiau pen arall y maes parcio wedi diflannu. Ro'n i'n bendant wedi cychwyn colli arni am eiliad neu ddwy. Llyfais fy ngwefusau i gael blasu'r siwgr eto.

Ac yna o nunlle daeth sgrech injan i chwalu'r llonyddwch trwm a chefais fy neffro gan fan Berlingo goch yn rhuthro'n syth tuag ata i. Stopiodd jest mewn pryd a hedfanodd y drws ar agor. Camodd dynes hŷn allan o'r fan, yn ei chwedegau cynnar, gan gadw hanner ei chorff yn y cerbyd. Roedd hi'n dal ofnadwy a'i sgwyddau'n llydan a chyhyrog. Roedd lliw haul ar ei chroen a'i gwallt gwyn wedi ei glymu'n ôl mewn cynffon hir, gydag ambell gudyn yn hongian yn rhydd.

Doedd hi'n ddim byd tebyg i ti. Dwn i'm pam roeddwn i wedi meddwl y byse hi.

'Catrin?' gofynnodd mewn llais cryg. Roedd ei llygaid yn turio i mewn i fy wyneb chwyslyd.

'Ia. Gwen?'

Nodiodd. Safais ar fy nhraed a bron i mi syrthio'n ôl ar y pafn yn syth.

'Iawn?' gofynnodd gan agor cefn y fan.

'Yndw. Jest heb arfer hefo'r gwres eto, ma' raid. Bach yn benysgafn.'

Nodiodd ac edrychodd ar ei horiawr. Deallais ei bod hi ar frys felly llusgais fy mag a'i stwffio i'r fan a llithro fy hun i'r sêd flaen. Roedd tu mewn y Berlingo'n grwst o lwch gyda rhyw arogl melys yn glynu'n yr aer. Arogl hen laswellt a llefrith wedi suro.

'Dydy'r gwregys ddim yn gweithio,' meddai Gwen wrth fy ngweld o gornel ei llygad yn trio clicio'r bwcl i'w le sawl gwaith. Clepiodd y drws ar ei hochr hi ar gau ac o fewn dim roedd y ddwy ohonom yn gwibio i ffwrdd. Wrth ruthro o'r maes parcio, cefais gip ar siapiau'r gwres yn rhedeg ar ein holau.

Agorais fy ffenest led y pen gan groesawu'r awel yn chwythu drwy fy ngwallt a sychu'r chwys hallt oddi ar fy wyneb. Roedd milltiroedd ar filltiroedd o gaeau euraidd yn ymestyn o'n blaenau gyda rhesi o flodau haul unionsyth yn ymestyn am i fyny. Pwffiodd y Berlingo i fyny'r elltydd, a chrensiodd Gwen y gêr gan ysgytio ni'n dwy am ymlaen. Roedd ei llygaid wedi'u rhwymo i'r ffordd a'i gwefusau wedi'u pwytho ar gau.

'Mae'n weird braidd, dydy, mai dyma'r tro cyntaf dwi'n cwrdd â chi go iawn,' mentrais o'r diwedd gan droi ati a gweld ei thalcen yn crychu.

'Gei di ddweud "ti",' atebodd gan wthio'r gêr anfodlon i'w le.

'Ers faint dach chi ... wyt ti yma?' gofynnais gan afael yn dynn ar y handlen uwch fy mhen wrth i'r car glepian i mewn ac allan o dyllau ar hyd y ffordd.

‘Dros bedwar deg o flynyddoedd.’

‘Ac wyt ti’n mynd ’nôl i Gymru weithiau?’

‘Ddim ers blynyddoedd maith.’

Aeth pethau’n dawel eto wedyn ac es i ati i gyfri’r polion trydan oedd yn gwibio heibio.

‘Fuest ti’n aros yn hir?’ gofynnodd o’r diwedd.

‘Na, na. Ddim rhy hir.’

Cododd ei haeliau, yn amlwg ddim yn fy nghredu. Roedd hi’n dreifio’n gyflym ac yn gwibio o gwmpas pob troad. Gafaelais yn dynnach yn ymylon fy sêr.

‘Ro’n i ’di anghofio dy fod ti’n cyrraedd heddiw.’

‘Wel, ma’ popeth ’di bod bach yn funud olaf, yn do?’ Dechreuais gnoi fy ewinedd, yn chwarae gyda’r boen o gyffwrdd y croen tyner. ‘Doeddwn i ddim yn siŵr os oeddech chi wedi derbyn fy ail lythyr neu beidio.’

Taflodd Gwen olwg sydyn arna i. Roedd ei llygaid yn las golau, golau, glas bore bach, a theimlais yr ysfa fwyaf sydyn i dynnu llun ohoni. Arhosodd fy nwylo’n llipa ar fy nglin.

Roedd y chwithdod eto’n llenwi’r cerbyd. Syllais ar y bryniau ar y gorwel. Ymhlith y caeau o flodau haul roedd sawl hen goeden olewydd gnyciog yn gwlwm o ganghennau.

Arafodd Gwen wrth gyrraedd cyrion pentref a dechreuodd nadreddu drwy’r strydoedd cul. Roedd y sgwâr canolog yn wag oni bai am ambell hen ddyn wedi gwyro dros ei ffon bren yng nghysgod y goeden fawr. Roedd arwydd rhydlyd caffi’n hongian dros un o’r drysau, ond roedd y tu mewn i’w weld yn dywyll. Roedd pob shutter ar hyd y stryd ar gau.

‘¿La siesta?’ gofynnais wrth edrych draw at Gwen.

‘Rhywbeth o’r fath,’ atebodd gan gyflymu unwaith eto wrth gyrraedd pen arall y pentref. Roedd y daith yn

teimlo'n hir wedyn. Trodd oddi ar y briffordd a siglodd y fan dros y lôn garegog, bantiog yn araf. Heb yr awel yn chwipio trwy'r ffenest, pwysai'r gwres yn drwm o fewn y car a llenwodd fy nghlustiau gyda suo'r pryfed. Roedd cefn fy ngwddf a fy llygaid wedi dechrau cosi gyda'r llwch a godai o'r lôn.

‘Eich coed chi yw'r rhain?’ gofynnais ar ôl sbel.

‘Ni sy'n gofalu amdany'n nhw,’ atebodd Gwen gan droi ei phen at y rhesi o goed almon bob ochr i'r lôn. ‘Ond mae rhai ohonynt, rhai o'r coed, yn sâl. Bydd raid i ni dorri nhw i lawr cyn bo hir.’

Do'n i ddim yn siŵr sut i ymateb. Y syniad bod coeden yn gallu bod yn sâl, jest fel ni. O'r diwedd, daeth y tŷ i'r golwg. Roedd o'n dŷ cerrig isel gyda tho fflat, yn gwrthio ei hun allan o'r tir o'i gwmpas. Ond wrth gamu allan o'r fan ac ymestyn fy nghoesau sylwais ar y paent gwyn yn plicio, y teils terracotta wedi syrthio o'r to ac ambell i ffrâm drws pren yn cael ei chynnal gan bolion haearn cam.

Roedd Gwen wedi prysuro'n barod ac ar ei chwrcwd yn llenwi powlen gyda dŵr o dap rhydlyd tu allan i'r tŷ.

‘Mae'n rhaid i mi fynd i fwydo'r geifr. Fydda i'n ôl cyn hir,’ meddai wrth godi ar ei thraed. ‘Gei di fynd i dy stafell i orffwys. Y drws cyntaf ar y dde ar ôl y gegin.’ Arhosodd am eiliad, fel petai am ddweud rhywbeth arall, ond yna trodd tuag at y beudy gyda'r to yn pantio'n y canol. Dylwn i fod wedi cynnig helpu, meddyliais ar ôl i'w gwallt gwyn ddiflannu rownd y gornel.

Gyda'r bag trwm ar fy nghefn, llusgais fy nhraed at y tŷ. Roedd rhywfaint o dolciau yn y drws pren a'r mat tu allan wedi gwisgo'n rhwymau. Gwyrodd blodau Mair melyn yn llipa o fasgedi uwch fy mhen, gydag ambell un wedi sychu'n grimp. Roedd cadeiriau wedi eu gadael rywsut rywsut ar y

patio o flaen y drws ffrynt, y gwyrdd tywyll wedi hen bylu'n rhubanau llwydlas ar y pren. Troais fy mhen a stopiais yn stond i edrych ar yr olygfa o fy mlaen. Ym mhen arall y patio, wedi eu gosod ar y llawr, roedd metrau o ddefnydd patrymog wedi eu gorchuddio gan gnau almon. Cannoedd ar gannoedd yn chwysu'n yr haul tanbaid. Camais yn agosach gan blygu i lawr a chyffwrdd rhai o'r plisgennau gyda blaenau fy mysedd. Roeddent yn arw a chynnes. Yn gwbl anghyfarwydd. Chwythodd awel o gwmpas talcen y tŷ gan lithro ei hun o dan y defnydd a'i godi'n donnau. Crynodd y cnau yn erbyn ei gilydd nes i'r gwynt ostegu, eu sisial yn llenwi distawrwydd llethol y buarth.

Codais ar fy nhraed a gwthiais ddrws y gegin ar agor a chael fy llyncu gan dywyllwch oer y tŷ cerrig. Roedd hi'n stafell fawr, un oedd yn amlwg wedi gweld prysurdeb dros y blynyddoedd. Roedd y teils ar y llawr wedi gwisgo'n slic mewn mannau, wrth ochr y sinc a thu ôl i gadeiriau'r bwrdd bwyd. Roedd hen sosbenni wedi duo'n hongian o'r waliau a llestri'r bore'n bentwr yn y sinc, gyda phryfed tew, glasddu'n cylchu'r briwsion bara yn ddiog ar dopiau'r cownteri. Ro'n i ar fin mynd draw i gael diod o ddŵr pan glywais lais garw tu ôl i mi.

‘¿Quién eres?’

Troais yn sydyn a gweld cysgod dyn yn y drws. Arhosodd yno am eiliad cyn agosáu. Teimlais fy nghyhyrau'n tynhau wrth weld ei fod yn dal lli gadwyn yn ei law. Cefais fy nharo gan arogl petrol cryf wrth iddo gamu ymhellach i mewn i'r stafell.

‘Catrin. Me llamo Cat.’ Daeth y geiriau allan yn drwsgl. ‘Are you José?’

Daeth yn agosach gan gamu allan o'r cysgod. Gwthiodd ei wefus waelod gochbiws trwy flewiach ei fwstásh.

Teimlais fy hun yn brysio i lenwi'r tawelwch.

'I'm your sister's daughter – soy la hija de tu hermana.'

'¿Y porque estás aquí?' Gosododd ei law yn bwrpasol ar y lli a chamodd yn agosach eto gyda'i aeliau hir yn ffluwch dros ei lygaid. Roedd arogl y petrol yn llosgi fy nhrwyn erbyn hyn. Gafaelais yn y gadair o fy mlaen yn dynn.

'I'm here to meet you. I sent you a letter a few weeks ago.' Diflannodd fy llais yn fy llwnc.

Dechreuodd ci gynhyrfu'n wyllt yn y buarth tu allan.

'Joder.' Poerodd, cyn sychu ei drwyn ar ei lawes gan adael rhuban du o olew ar ei foch. Heb ddweud gair arall diflannodd yn ôl i ganol golau disglair y buarth.

Arhosais yn fy unfan am sbel ac yna tynheais strapiau fy mag a gafael yn y camera o gwmpas fy ngwddf. Yn falch o'r pwysau oer yn fy llaw.

